# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Gwynedd

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn natganiad blynyddol, astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Gwynedd i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Gwynedd fodloni pob un o'r 12 hawliad craidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Gwynedd 8 ohonynt yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Gwynedd wedi parhau i berfformio'n dda, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ei gymunedau. Bu pwyslais parhaus ar y ddarpariaeth Gymraeg ac mae'r nifer sy'n defnyddio'r ddarpariaeth honno yn parhau yn y chwartel uchaf yng Nghymru. Bydd ffocws ar ddarparu cyrsiau i oedolion ac ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd yn sicrhau bod model presennol y gwasanaethau a gynigir yn parhau'n berthnasol ac mai gwasanaethau sydd eu hangen gan breswylwyr Gwynedd a ddarperir. Er bod y gostyngiad o ran defnydd wedi parhau, mae'r cynnydd dramatig o ran y defnydd o e-adnoddau a bwriad y gwasanaeth i gynyddu'r adnoddau digidol sydd ar gael yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae'n hanfodol o hyd y caiff lefelau staffio presennol eu diogelu er mwyn sicrhau y gall ansawdd y gwasanaethau a gynigir barhau.

- Mae Gwynedd yn parhau i fodloni pob un o'r 12 hawliad craidd yn llawn. Un o gryfderau'r gwasanaeth yw'r trefniadau rheolaidd ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr.
- Mae lefelau defnydd wedi lleihau'n gyffredinol ers 2017/18, ac mae nifer yr ymwelwyr ffisegol, lefelau benthyca a'r llyfrau a ddosberthir wedi lleihau.
- Fel gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau yng Nghymru, bu cynnydd sylweddol yng nghyfanswm nifer y lawrlwythiadau electronig, sydd wedi cynyddu 60% ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith.
- Fel dwy flynedd flaenorol y fframwaith, mae Gwynedd yn parhau i gofnodi un o'r lefelau gwariant cyfrannol uchaf ar adnoddau Cymraeg, ac mae lefel yr adnoddau Cymraeg a ddosberthir yn y chwartel uchaf yng Nghymru, er gwaethaf gostyngiad ers 2017/18.
- Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi amrywio yn ystod y fframwaith tair blynedd ac mae wedi gostwng ychydig ers 2017/18. Erys gwariant fesul pen yn uwch na'r lefel ganolrif.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliadau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Mae'r asesiad wedi'i gyfyngu i ryw raddau gan y ffaith mai dim ond ar unrhyw newidiadau i ffurflen y flwyddyn flaenorol y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud

sylwadau, ochr yn ochr â sylwebaeth ychwanegol ar hawliau craidd rhannol/heb eu bodloni.

## 2.1 Hawliadau craidd

Mae Gwynedd yn parhau i fodloni pob un o'r 12 hawliad craidd yn llawn. Un o gryfderau'r gwasanaeth yw'r trefniadau rheolaidd ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr. Cynhelir arolwg bob blwyddyn a defnyddir adborth i wneud newidiadau er mwyn gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr. Mae hyn yn sicrhau y gall llyfrgelloedd reoli disgwyliadau a'u bodloni. Mae un o gryfderau eraill y gwasanaeth i'w weld drwy nifer o bartneriaethau. O ganlyniad i drefniadau cydweithredu â Grŵp Llandrillo Menai, mae Gwynedd wedi gallu cynnig nifer o weithgareddau i gefnogi dysgu gydol oes a llesiant. Mae'r gwasanaeth hefyd yn arwain ar sawl menter i Gymru gyfan ac mae ganddo gyfraniad cryf at iechyd a lles.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, pump, chwech a phymtheg, yr oedd gan rhif chwech darged yn rhan ohono. O'r naw targed sy'n weddill ar gyfer 2019-20. O'r **naw** targed sy'n weddill, mae Gwynedd yn cyflawni 8 ohonynt yn llawn ac 1 yn rhannol.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | √ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | √ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | √ | |
| d) Datblygu darllenwyr | √ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | √ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | √ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | √ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | √ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | √ | |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | √ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Cyflawni'n llawn |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | √ | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | x | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | √ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen | √ | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | √ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | √ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Cyflawni'n llawn |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | √ | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | √ | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | x | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | x | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | √ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | √ | Cyflawni'n llawn |

Bu rhai newidiadau o ran perfformiad yn ystod y drydedd flwyddyn hon o'r chweched fframwaith.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Fodd bynnag, effeithiwyd ar y mesur hwn gan Covid-19 a chanslwyd rhai cynlluniau awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Mae Gwynedd yn cwblhau ei harolygon fel rhan o gylch blynyddol, a chaiff y gweithgarwch ei rannu dros dri arolwg oedolion, sy'n ymdrin â TG a Dysgu, Iechyd a Lles a Gofal Cwsmeriaid, ac arolwg plant. Felly, caiff y ffigurau eu diweddaru bob blwyddyn.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 93% | *9/19* | 60% | 90% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 90% | *=6/19* | 41% | 85% | 99% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd ddarparu hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Gwynedd bedair astudiaeth achos o'r fath, ynghyd ag adborth ehangach gan ddefnyddwyr:

- Wythnos edrych ar ôl fy hun – Iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth hwn yn anelu at wella lles pobl Gwynedd. Mae'n bartneriaeth gydweithredol â gwasanaeth lles Cyngor Gwynedd. Chwaraeodd llyfrgelloedd Gwynedd ran bwysig wrth roi cyhoeddusrwydd i

nifer o ddigwyddiadau iechyd a lles a gynigiwyd yn ystod wythnos iechyd a lles yn 2019. Cafodd y digwyddiadau groeso cynnes, gan gynnig cyfle i'r llyfrgelloedd hyrwyddo adnoddau allweddol.

- Adnewyddu pasys bws – effaith y cymorth a ddarparodd llyfrgelloedd yng Ngwynedd i unigolion a oedd yn adnewyddu eu pasys bws. Roedd y llyfrgelloedd yn hanfodol wrth helpu unigolion i adnewyddu eu pasys bws, a chafodd 5,440 o unigolion gymorth o'r fath. Roedd staff y llyfrgelloedd yn gallu annog defnyddwyr a'u helpu i gwblhau'r broses hon. Roedd cyfraniad y gwasanaeth llyfrgelloedd yn amhrisiadwy.
- Cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned – Cyfres o ddigwyddiadau dysgu i oedolion. Drwy gydweithrediad â nifer o bartneriaid, llwyddwyd i gynnig amrywiaeth o sesiynau rhagflas a chyrsiau, yn amrywio o ysgrifennu creadigol i ymwybyddiaeth ofalgar. Dangosodd adborth gan gyfranogwyr y fantais, soniodd un unigolyn am sut y cafodd effaith gadarnhaol ar eu lles a'i sgiliau.
- Clwb hanes teuluol – Clwb hel achau dwy awr o hyd bob wythnos. Drwy sesiynau grŵp wythnosol, cynigir cyfleoedd i unigolion ddefnyddio adnoddau fel Ancestry yn effeithiol gyda chymorth staff y llyfrgelloedd. Caiff unigolion gymorth i ymchwilio i'w hanes teuluol, gan fwynhau'r cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithio gydag eraill sy'n rhannu'r un diddordeb.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i fod yn heriol i'r holl wasanaethau llyfrgell yng Nghymru, mae gwydnwch staff, proffesiynoldeb a gofal i'r gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn rhagorol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o'r dystiolaeth a gyflwynwyd bod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, mannau cymunedol a grwpiau fel gweu a sgwrs.  Ni ellir tanbrisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle ffisegol a'r effaith ar les eu cwsmeriaid drwy ryngweithio â staff llyfrgelloedd.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Gwynedd ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Cyfrifir y dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2018/19* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Framework 6]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 89% | *6/18* | 25% | 75% | 94% | *96%* |
| c) iechyd a lles | 69% | *10/19* | 38% | 69% | 96% | *57%* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 96% | *=12/19* | 10% | 92% | 100% | *99%* |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | *[Framework 6]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 90% | *=14/18* | 78% | 91% | 99% | *90%* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 97% | *=13/18* | 88% | 97% | 100% | *100%* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 94% | *4/17* | 65% | 85% | 99% | *91%* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 99% | *=2/18* | 85% | 96% | 100% | *98%* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.4 | *-3/19* | 8.0 | 9.1 | 9.5 | *9.5* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 2,741 | *20/22* | 2429 | 3987 | 6874 | *2,900* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 1,082 | *8/22* | 239 | 909 | 2131 | *1,083* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 147 | *10/22* | 78 | 145 | 244 | *156* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 913 | *4/22* | 19 | 140 | 541 | *1,159* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul 10,000 | 8 | *15/22* | 4 | 9 | 14 | *8* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 20% | *18/22* | 14% | 30% | 64% | *20%* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £15,405 | *5/22* | £7,260 | £12,448 | £23,333 | *£14,440* |
| b) % ar staff | 48% | *22/22* | 48% | 61% | 76% | *48%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 12% | *=11/22* | 5% | 13% | 22% | *12%* |
| % ar offer ac adeiladau | 5% | *=11/22* | 0% | 8% | 28% | *5%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 35% | *=1/22* | 1% | 18% | 35% | *34%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £1,146 | *6/22* | £0 | £1,567 | £13,027 | *£448* |
| DA 16 – Oriau agor[3] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.04% | *19/22* | 0.00% | 0.23% | 3.96% | *0.17%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 0.00% | *=1/22* | 0.00% | 1.07% | 5.41% | *0.00%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; [3] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliadau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)[i]

Diweddarodd Gwynedd ei harolygon rhwng mis Mai 2019 a mis Hydref 2019. Mae canlyniadau'r holiadur ar-lein bellach wedi'u cynnwys hefyd. Mae'r canlyniadau yn galonogol o hyd, er y bu gostyngiad bach iawn mewn rhai meysydd. Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu'r amrywiaeth lawn o gymorth o ran datblygu unigolion, a

chymorth da ar gyfer iechyd a lles. Mae nifer o bartneriaethau anffurfiol a ffurfiol yn sicrhau y gall Gwynedd ddarparu amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi lles a bod ymrwymiad cryf i gydraddoldebau. Mae nifer sylweddol o bobl yn nodi bod y cyrsiau a gynigiwyd wedi cael effaith gadarnhaol a sylweddol ar eu lles a'u hiechyd meddwl.

### 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)[ii]

Effeithiwyd ar y defnydd o lyfrgelloedd gan y penderfyniad i gau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19. Mae Gwynedd yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad hawdd at bwyntiau gwasanaeth ac ni fu unrhyw newidiadau i nifer y canghennau ers 2017/18. Mae lefelau defnydd wedi lleihau'n gyffredinol ers 2017/18, ac mae nifer yr ymwelwyr ffisegol, lefelau benthyca a'r llyfrau a ddosberthir wedi lleihau.  Fodd bynnag, mae nifer y llyfrau oedolion a phlant a ddosberthir fesul pen yn parhau'n uwch na'r lefel ganolrif yng Nghymru, a'r lefel benthyciadau i blant yw'r seithfed uchaf yng Nghymru. Fel gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau yng Nghymru, bu cynnydd sylweddol yng nghyfanswm nifer y lawrlwythiadau electronig, sydd wedi cynyddu 151% ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith.

### 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[iii]

Cyrhaeddir un elfen o'r targed caffael DA 9 (Derbyniadau fesul pen y boblogaeth). Mae Gwynedd yn un o bum awdurdod sydd wedi cyrraedd y targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Bu cynnydd yn y gwariant ar stoc ers 2017/18. Mae cyfanswm y gwariant ar ddeunyddiau i blant wedi cynyddu ac yn uwch na'r canolrif yng Nghymru ac mae'r Gwasanaeth yn parhau i flaenoriaethu'r gwasanaethau i blant. Fel dwy flynedd flaenorol y fframwaith, mae Gwynedd yn parhau i gofnodi un o'r lefelau gwariant cyfrannol uchaf ar adnoddau Cymraeg, ac mae lefel yr adnoddau Cymraeg a ddosberthir yn y chwartel uchaf yng Nghymru, er gwaethaf gostyngiad ers 2017/18.  Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, ac ni fu unrhyw newid sylweddol ers 2017/18. Cynhaliwyd lefel y cyfrifiaduron personol a ddarparwyd a'r defnydd ohonynt ar lefelau 2018/19, ac mae'r llyfrgelloedd teithiol yn cynnig mynediad ar-lein o bell 3G lle bo hynny'n bosibl yn ddaearyddol ond ni lwyddwyd i ddatrys problemau o ran darparu Wi-Fi ar ei lyfrgelloedd teithiol.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)[iv]

Mae lefelau staffio yn her o hyd. Mae nifer cyffredinol y staff wedi lleihau ychydig yn 2019/20, ond nodir bod swyddi gwag, gan gynnwys swydd ar lefel broffesiynol. Ni chyflawnwyd y targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen, er ei fod ar y lefel ganolrif. Mae arweinyddiaeth gymwys i'w gweld o hyd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi amrywio ers 2017/18. Erys gwariant fesul pen yn uwch na'r lefel ganolrif. Mae'r awdurdod hefyd wedi parhau i fuddsoddi yn y gwasanaeth o'i gyllideb cyfalaf. Ni fu unrhyw newidiadau i'r oriau agor blynyddol drwy gydol y fframwaith ac nid amharwyd fawr ddim ar y gwasanaethau a gynlluniwyd.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad, gofynnir i awdurdodau nodi sut mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu amlinelliad cynhwysfawr o'i gyfraniad at themâu trawsbynciol

Llywodraeth Cymru, sef ffyniannus a sicr; iach a gweithgar; uchelgais a dysgu; y Gymraeg; cynhwysiant digidol a gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy.

Mae'r cydweithrediad â cholegau addysg bellach a Phartneriaeth Addysg Oedolion Gwynedd a Môn yn werth ei nodi, ynghyd â chynnydd yn y ddarpariaeth ddysgu. Mae'r bartneriaeth hon yn galluogi'r gwasanaeth i ymgysylltu'n llwyddiannus â chymunedau lleol.

Mae Gwynedd yn parhau i chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o gydlynu cynlluniau print bras a llyfrau sain cenedlaethol Cymraeg ynghyd â chydberthynas waith agos ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod i'r dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn ganlynol, nodir bod y gwaith wedi dechrau ar gynllun llyfrgelloedd pum mlynedd newydd i lyfrgelloedd Gwynedd. Fodd bynnag, mae Covid-19 wedi effeithio'n uniongyrchol ar ddatblygu cynllun llyfrgell newydd.Oherwydd heriau cymdeithasol ac economaidd 2020, cafodd rhywfaint o'r gweithgarwch ei ohirio.

Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys: mwy o gydweithredu er mwyn cynyddu'r adnoddau digidol sydd ar gael; y ddarpariaeth cyrsiau i oedolion; y ddarpariaeth TG a chyfleoedd hyfforddi. Mae'r gwasanaeth hefyd yn anelu at adeiladu ar ei lwyddiant wrth gynnig gwasanaethau clicio a chasglu a chynhelir adolygiad o'r model presennol ar gyfer gwasanaethau teithiol a gwasanaethau cartref er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion y gymuned.

Ceir cyfleoedd posibl i gydweithio ymhellach o ran datblygu cyfleusterau Neuadd Dwyfor a chynnydd posibl yn oriau agor llyfrgell Pwllheli. Mae'r gwasanaeth yn nodi nifer o gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth, a allai gael effaith gadarnhaol ar breswylwyr Gwynedd.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Gwynedd wedi parhau i berfformio'n dda, gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion ei gymunedau. Bu pwyslais parhaus ar y ddarpariaeth Gymraeg ac mae'r nifer sy'n defnyddio'r ddarpariaeth honno yn parhau yn y chwartel uchaf yng Nghymru. Bydd ffocws ar ddarparu cyrsiau i oedolion ac ymgynghori'n rheolaidd â'r cyhoedd yn sicrhau bod model presennol y gwasanaethau a gynigir yn parhau'n berthnasol ac mai gwasanaethau sydd eu hangen gan breswylwyr Gwynedd a ddarperir. Er bod y gostyngiad o ran defnydd wedi parhau, mae'r cynnydd dramatig o ran y defnydd o e-adnoddau a bwriad y gwasanaeth i gynyddu'r adnoddau digidol sydd ar gael yn ddatblygiad cadarnhaol. Mae'n hanfodol o hyd y caiff lefelau staffio presennol eu diogelu er mwyn sicrhau y gall ansawdd y gwasanaethau a gynigir barhau.

---

[i] *Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*

[ii] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*

[iii] *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*

[iv] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*